# GLANNAU'R TAF YR HAF HWN / WHAT'S ON THIS SUMMER

## MEHEFIN / JUNE

### Joust!
15-16 Mehefin, Castell Caerdydd
Angen Tocyn

Mae'r Knights of Royal England yn dychwelyd gyda sioe ysblennydd a gornest ymryson epig. Bydd adrodd straeon, cerddorion yn crwydro, arddangosiadau ymladd a gwersyllfa bentref yn creu diwrnod canoloesol i ymwelwyr.



### Joust!
June 15-16, Cardiff Castle
Ticketed Event

The Knights of Royal England return with a dazzling show and an epic display of jousting. Storytelling, strolling musicians, combat displays and a village encampment make for a magical medieval day out.

### Canwr y Byd Caerdydd y BBC
15-22 Mehefin, Neuadd Dewi Sant
Angen Tocyn

Mae cystadleuaeth BBC Canwr y Byd Caerdydd yn brofiad sy'n newid bywydau ugain o gantorion ifanc ar ddechrau eu gyrfaoedd proffesiynol. Wrth berfformio o flaen rheithgor nodedig, byddant yn canu i gyfeiliant dwy gerddorfa o safon ryngwladol - Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a Cherddorfa Opera Cenedlaethol Cymru.

BBC CARDIFF SINGER OF THE WORLD CANWR Y BYD CAERDYDD

### BBC Cardiff Singer of the World
June 15-22, St David's Hall
Ticketed Event

A life changing experience for twenty young singers, at the start of their professional careers. See them perform in front of a distinguished jury, accompanied by two world-class orchestras – the BBC National Orchestra of Wales, and the Welsh National Opera Orchestra.

### Tafwyl
21-23 Mehefin, Castell Caerdydd
Angen Tocyn

Cyfle blynyddol i ddangos y Gymraeg a diwylliant Cymru ar eu gorau yw Tafwyl. Mae mynediad i'r ŵyl hon sy'n addas i deuluoedd am ddim ac yn agored i bawb – boed yn siarad Cymraeg ai peidio. Mae Tafwyl yn gyfuniad o gerddoriaeth, llenyddiaeth, drama, comedi, celf, chwaraeon, bwyd a diod.



### Tafwyl
June 21-23, Cardiff Castle
Ticketed Event

Tafwyl is Cardiff's annual showcase of the Welsh language and shows Welsh culture at its very best. Entry to this family friendly festival is free and open to all – Welsh speaker or not. Tafwyl is a lively mix of music, literature, drama, comedy, art, sports, food & drink.

### Gŵyl Theatr Awyr Agored Caerdydd
27 Mehefin – 3 Awst, Gerddi Sophia Caerdydd, Angen Tocyn

Wedi'i disgrifio gan y South Wales Echo yn y gorffennol fel un o "uchafbwyntiau'r haf", mae'r ŵyl arobryn hon yn cyflwyno cynyrchiadau sy'n apelio at bob oedran. Mae'r cynyrchiadau eleni'n cynnwys Hi-De-Hi, Jesus Christ Superstar, The Little Mermaid gan Disney a mwy!



### Cardiff Open Air Theatre festival
June 27 – August 3, Sophia Gardens Cardiff
Ticketed Event

Referred to in previous years as a "summer highlight" by the South Wales Echo, this award winning festival showcases productions that cater to all ages". This year's productions include Hi-De-Hi, Jesus Christ Superstar, Disney's The Little Mermaid and more!

### Parc Dŵr Caerdydd
29 Mehefin – 8 Medi, Bae Caerdydd
Angen Tocyn

Yn mesur dros 100m x 80m, mae gan y Parc Dŵr chwyddadwy arnofiol fwy na 72 o rwystrau gan gynnwys sleidiau, trampolinau a bariau mwnci sy'n ei wneud y parc mwyaf o'i fath yng Nghymru a'r diwrnod mas gorau i grwpiau, teuluoedd, plant a'r rhai sy'n gaeth i adrenalin! Mae cyfyngiadau taldra fod ar waith.



### Aqua Park Cardiff
June 29 – September 8, Cardiff Bay
Ticketed Event

Measuring over 100m by 80m the floating inflatable Aqua Park has over 72 obstacles including slides, trampolines and monkey bars making it the largest one in Wales and the ultimate day out for groups, families and adrenaline junkies! Height restrictions apply.

## GORFFENNAF / JULY

### Gŵyl Bwyd a Diod Caerdydd
5-7 Gorffennaf, Bae Caerdydd, Mynediad am ddim

Mae digwyddiad gwreiddiol y ddinas sy'n dathlu cynnyrch brodorol a bwyd stryd hynod flasus yn dathlu ugain mlynedd ers ei sefydlu eleni ac mae'n argoeli y bydd yn uchafbwynt yr haf hwn! Dewch i gael blas ar ddewis helaeth o fwydydd gan gynhyrchwyr lleol a chenedlaethol wrth i chi gerdded o gwmpas y sgwâr bwyd stryd gan fwynhau'r gerddoriaeth – â'r olygfa o'r glannau yn gefnlen i'r cyfan.



### Cardiff Food & Drink Festival
July 5 – 7, Cardiff Bay, Free Entry

The city's original celebration of home grown produce, and irresistible street food, celebrates its 20th birthday and promises to be a highlight of the summer! Sample a vast array of food, from local and national producers, stroll around the street food piazza, and enjoy the sounds of live music - against the backdrop of the scenic waterfront.

### Theatr Awyr Agored: A Midsummer Night's Dream
6 Gorffennaf, Castell Caerdydd, Angen Tocyn

Mae The Lord Chamberlain's Men, cwmni theatr dynion blaenaf y DU, yn eich gwahodd i ymuno â nhw yr haf hwn am un noson yn unig i ddathlu 15 mlynedd ers sefydlu'r cwmni gyda chomedi swynol Shakespeare, 'A Midsummer Night's Dream'.



### Open Air Theatre: A Midsummer Night's Dream
July 6, Cardiff Castle,
Ticketed Event

The Lord Chamberlain's Men, the UK's premier all male theatre company, invite you to join them this summer for one night only to celebrate their 15th year with Shakespeare's enchanting comedy 'A Midsummer Night's Dream'.

### Depot yn y Castell 2019
13 Gorffennaf, Castell Caerdydd,
Angen Tocyn

Mae Depot yn y Castell yn dychwelyd am y drydedd flwyddyn yn olynol ac mae'n fwy nag erioed. Eleni byddwn yn dod â nid un, ond dau brif berfformiwr, i ganol Caerdydd. Bydd perfformwyr yn cynnwys Clean Bandit, Tom Odell a Circa Waves.



### Depot in the Castle 2019
July 13, Cardiff Castle,
Ticketed Event

DEPOT in the Castle is back for its third year running, and bigger than ever. This year we'll be bringing not one, but two incredible headliners, straight to the heart of Cardiff. Acts include Clean Bandit, Tom Odell, and Circa Waves.

### Proms Cymru 2019
20 – 27 Gorffennaf, Neuadd Dewi Sant,
Angen Tocyn

Cymru yw Gwlad y Gân ac rydym ni yng Nghaerdydd yn falch, bob haf, bod Neuadd Dewi Sant, neuadd gyngerdd genedlaethol Cymru yn cynnal ein gŵyl gerddoriaeth glasurol genedlaethol, Proms Cymru.



### Welsh Proms 2019
20 -27 July, St David's Hall,
Ticketed Event

Wales is a land of music and celebration, and we in Cardiff are proud that each summer, St David's Hall, Wales' National Concert Hall, hosts our national classical music festival, the Welsh Proms Cymru.

### Traeth Bae Caerdydd Capital FM
20 Gorffennaf - 1 Medi
Bae Caerdydd, Mynediad am ddim

Unwaith eto bydd Roald Dahl Plass ym Mae Caerdydd yn cael ei drawsnewid yn lleoliad glan môr dinesig gyda llond bwcedi o hwyl ar gael i ddifyrru'r plant trwy gydol gwyliau'r haf. Mae'r atyniad yn cynnwys traeth tywodlyd anferth sy'n addas i blant, padiau sblashio sy'n creu ardal chwarae dŵr, ac amrywiaeth o reidiau ffair a gemau poblogaidd i'r teulu cyfan. Heb os nac oni bai, dylai'r uchafbwynt hwn yng nghalendr haf Caerdydd fod ar eich rhestr fwced (a rhaw) i'r haf! Mae mynediad AM DDIM, gyda thâl ychwanegol ar gyfer y cyfleusterau ar y safle.



### Capital FM Cardiff Bay Beach
July 20 – September 1
Cardiff Bay, Free Entry

Roald Dahl Plass in Cardiff Bay will once again be transformed into an urban seaside setting with buckets full of fun on offer to entertain the kids throughout the school holidays. The attraction features a giant child-friendly sandy beach, splash pads creating a water play area, and a variety of popular funfair rides and games for all the family. This staple in Cardiff's summer calendar should definitely be on your summer bucket (and spade) list! Entry is FREE with additional charges for on-site facilities.

### Cwpan y Byd i'r Rhai Digartref
27 Gorffennaf – 4 Awst, Parc Bute, Mynediad am ddim

Am yr ail dro ar bymtheg, cynhelir pencampwriaeth Cwpan y Byd i'r Digartref a hynny ym Mharc Bute, yng nghanol y ddinas. Bydd dros 500 o chwaraewyr yn cynrychioli dros 50 o wledydd yn dod i gystadlu yn yr ŵyl dros wythnos gyfan, gŵyl a gaiff ei hadnabod fel un o'r pencampwriaethau Cwpan y Byd i'r Digartref mwyaf ysbrydoledig a welwyd.



### Homeless World Cup
July 27 – August 4, Bute Park,
Free Entry

The 17th edition of the Homeless World Cup will take place in Bute Park, at the heart of the city. Over 500 players representing over 50 countries will attend the week-long festival of football, in what is to become one of the most inspiring Homeless World Cup tournaments.

## AWST / AUGUST

### Manchester United v. AC Milan
3 Awst, Stadiwm Principality, Angen Tocyn

Bydd Manchester United yn chwarae yn erbyn AC Milan yn Stadiwm Principality ar 3 Awst yn y gêm gyntaf erioed yng Nghwpan y Pencampwyr Rhyngwladol (ICC) i gael ei chynnal yng Nghymru.



### Manchester United v. AC Milan
August 3, Principality Stadium,
Ticketed Event

Manchester United will play AC Milan at Principality Stadium on 3 August in the first ever International Champions Cup (ICC) game to take place in Wales.

### Gemau Cynhesu ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd
17 a 31 Awst, Stadiwm Principality,
Angen Tocyn

Disgwylir i Gaerdydd lenwi â bloeddio a chanu wrth i'r stadiwm, y strydoedd a'r tafarnau byrlymu a dathliadau'n llawn miri ac awyrgylch llawn tyndra wrth i Gymru fynd i'r afael â'u hen elynion Lloegr ar 17 Awst yn Stadiwm Principality, Caerdydd. Ar Awst 31 bydd Iwerddon yn ceisio dial am golli ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad.



### Rugby World Cup Warm-Up Fixtures
August 17 & 31, Principality Stadium,
Ticketed Event

Cardiff is set to spring to life with cheer and song as the stadium, streets and pubs rumble with joyous celebration and tense atmosphere as Wales clash against their old foes England on August 17 in the Principality Stadium, Cardiff. On August 31 Ireland will seek retribution for their Six Nations defeat.

### Twrnamaint y Marchogion
17-18 Awst, Castell Caerdydd,
Angen Tocyn

Teithiwch yn ôl drwy amser i weld marchogion, ynghyd â gwastrodion dewr, mewn arddangosiadau gwefreiddiol o ymladd canoloesol. Ymunwch â ni am ddiwrnod mas llawn cyffro wrth i'r Warwick Warriors gystadlu mewn brwydr epig am deitl y pencampwr yn Nhwrnamaint y Marchogion.



### Tournament of the Knights
August 17 – 18, Cardiff Castle,
Ticketed Event

Travel back through time and witness valiant knights, alongside brave squires, in thrilling displays of medieval combat. Join us for an action packed day out as the Warwick Warriors compete in epic battle for the title of champion in the Tournament of the Knights.

### Penwythnos Mawr Pride Cymru
23-25 Awst, Canol y Ddinas, Angen Tocyn

Dathliad mwyaf Cymru o gydraddoldeb ac amrywiaeth yw Penwythnos Mawr Pride Cymru. Dros dridiau, bydd Pride Cymru'n croesawu mwy na 50,000 o bobl i brifddinas Cymru i ddathlu pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Dylech chi ddisgwyl gorymdaith hyd milltir o hyd, adloniant ar 4 llwyfan gan gynnwys cerddoriaeth fyw, troellwyr a chabare, a llawer mwy!



### Pride Cymru's The Big Weekend
August 23 – 25
City Centre, Ticketed Event

Pride Cymru's Big Weekend is Wales's biggest celebration of equality and diversity. Over 3 days, Pride Cymru hosts over 50,000 people in the Welsh capital to celebrate the LGBT+ community. Expect a mile-long parade, entertainment across 4 stages including live music, DJ's, cabaret and much more!

### Pencampwriaethau Crefft Pysgod Gwledydd Prydain
24 -25 Awst
Roald Dahl Plass, Mynediad Am Ddim

Bydd crefftwyr pysgod gorau'r DU yma i ddangos eu sgiliau mewn nifer o gystadlaethau cyffrous. Ar agor i bawb sy'n ymwneud â'r fasnach bysgod, dofednod neu helgig, mae'r cystadlaethau hyn yn profi'r sgiliau sydd eu hangen i baratoi pysgod a dofednod. Pwyntiau am berfformiad, cyflwyniad, hylendid ac ymddangosiad cyffredinol – mae arian a thlysau i'w hennill!



### British Fish Craft Championships
24 -25 August, Roald Dahl Plass, Free Entry

The best of the UK's fish craftsmen demonstrate their skills in a range of exciting competitions. Open to anyone involved in the fish, poultry or game trade, the competitions test the skills that are necessary in the preparation of fish and poultry. Points are awarded for performance, presentation, hygiene and general appearance - with prize money and trophies to be won!

## MEDI / SEPTEMBER

### Sinema Luna
13 - 15 Medi, Castell Caerdydd
Angen Tocyn

Sinema dan y sêr – mae bellach yn un o'r digwyddiadau mwyaf poblogaidd yn y calendr. Dewch â phicnic a blanced - a mwynhewch eich hoff ffilmiau yn nhiroedd gogoneddus y Castell. Bydd y ffilmiau'n cynnwys Bohemian Rhapsody, Mama Mia! Here We Go Again, a The Life of Brian gan Monty Python.



### Luna Cinema
September 13 – 15, Cardiff Castle
Ticketed Event

Cinema under the stars - now a firm favourite in the calendar. Bring along your picnic and rug and enjoy your favourite films in the magical setting of the Castle. Films include Bohemian Rhapsody, Mamma Mia! Here We Go Again, & Monty Python's The Life of Brian.

### Grand Prix Speedway Prydain Adrian Flux yr FIM 2019
21 Medi, Stadiwm Principality,
Angen Tocyn

Mae cystadleuaeth 2019 Grand Prix Speedway Prydain Adrian Flux yr FIM yn dychwelyd i Stadiwm Principality ddydd Sadwrn, 21 Medi.



### 2019 Adrian Flux British FIM Speedway Grand Prix
September 21,
Principality Stadium, Ticketed Event

The 2019 edition of the Adrian Flux British FIM Speedway Grand Prix returns to Principality Stadium on Saturday, September 21.

I ddysgu mwy am brisiau tocynnau, digwyddiadau ac atyniadau yng Nghaerdydd yr haf hwn ewch i **croesocaerdydd.com**

#CroesoCaerdydd
#VisitCardiff

To find out more about ticket prices, events, and attractions in Cardiff this summer head to **visitcardiff.com**